# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 1**

RHAGARWEINIOL

*Dehongli*

**84 Ystyr "sefyllfa dreth"**

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "sefyllfa dreth", mewn perthynas â pherson, yw sefyllfa'r person o ran unrhyw dreth ddatganoledig, gan gynnwys sefyllfa'r person o ran—

(a) rhwymedigaeth yn y gorffennol, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, i dalu unrhyw dreth ddatganoledig,

(b) cosbau, llog (gan gynnwys llog ar gosbau) a symiau eraill a dalwyd, neu sy'n daladwy neu a all fod yn daladwy, gan y person neu i'r person mewn cysylltiad ag unrhyw dreth ddatganoledig, ac

(c) hawliadau neu hysbysiadau a wnaed neu a roddwyd, neu y gellir eu gwneud neu eu rhoi, mewn cysylltiad â rhwymedigaeth y person i dalu unrhyw dreth ddatganoledig,

ac mae cyfeiriadau at sefyllfa person o ran treth ddatganoledig benodol (sut bynnag y'u mynegir) i'w dehongli yn unol â hynny.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at sefyllfa dreth person yn cynnwys cyfeiriadau at sefyllfa dreth—

(a) unigolyn sydd wedi marw, a

(b) corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig sydd wedi peidio â bod.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at sefyllfa dreth person yn cyfeirio at sefyllfa dreth y person unrhyw bryd neu o ran unrhyw gyfnod, oni nodir i'r gwrthwyneb.

(4) Mae cyfeiriadau at wirio sefyllfa dreth person yn cynnwys cyfeiriadau at gynnal ymchwiliad neu at wneud ymholiad o unrhyw fath.